

Dwêd wrth dy Dduw

Philipiaid 4:11-14 Alaw: Paid â Deud

Os yw'th galon bron â thorri
Dwêd wrth dy Dduw,
Os yw serch dy ffydd yn oeri
Dwêd wrth dy Dduw.
Ac os chwalu mae d'obeithion
Dwêd wrth dy Dduw,
Fe ddaw'n nes i drwsio'th galon,
Dwêd wrth dy Dduw.

Os mai poenus yw'th sefyllfa
Dwêd wrth dy Dduw,
Yn ei freichiau mae dy noddfa,
Dwêd wrth dy Dduw.
Fe gei gryfder i'w wynebu
Dwêd wrth dy Dduw,
Gan yr hwn sydd yn dy nerthu,
Dwêd wrth dy Dduw.

Os wyt angen gwneud dy gyffes
Dwêd wrth dy Dduw,
Fe wnaiff wrando ar dy hanes,
Dwêd wrth dy Dduw.
Deliodd Iesu â'n pechodau
Dwêd wrth dy Dduw,
Cei faddeuant drwy ei angau
Dwêd wrth dy Dduw.

Ac os wyt uwchben dy ddigon
Dwêd wrth dy Dduw,
Ganddo ef y daw dy roddion
Dwêd wrth dy Dduw.
Os wyt drist neu os wyt ddedwydd
Dwêd wrth dy Dduw,
Ynddo Ef mae'r gwir lawenydd
Dwêd wrth dy Dduw.